

# Adroddiad Arholwyr Lefel 2

Iechyd a Gofal Cymdeithasol:
Egwyddorion a Chyd-destunau
Lefel 2
Haf 2024

© WJEC CBAC Ltd | City & Guilds.

## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Cyf.

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig.  Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy’n rhoi’r caniatâd i’r staff yn y ganolfan gyrchu’r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC  neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Cyf.

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd | 6 |
| Uned 2: Iechyd a gofal cymdeithasol mewn perthynas â chefnogi darpariaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer gofal person-ganolog | 8 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 11 |


© WJEC CBAC Cyf.

## Crynodeb Gweithredol

### Trosolwg o'r Uned

**Asesir yn Allanol: Uned 1**
Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr uned a asesir yn allanol, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda. Mewn rhai achosion, roedd tystiolaeth o ddiffyg manylion mewn rhai ymatebion, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau tariff uwch. Roedd rhai ymgeiswyr wedi cyfyngu ar eu marciau drwy ysgrifennu ymatebion syml, heb dreulio amser yn meddwl yn fanylach, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cwestiwn i lunio eu hymatebion.

Fel mewn cyfresi blaenorol, roedd y testun hunan-gysyniad a gwydnwch yn anodd i ymgeiswyr ei ddeall a'i esbonio. Argymhellir bod canolfannau'n defnyddio cyn-bapurau ac yn sicrhau bod ymgeiswyr wedi'u paratoi ar gyfer yr asesiadau allanol.

**Asesir yn fewnol: Uned 2**
Mae canolfannau wedi gweithio'n ofnadwy o galed i fodloni gofynion cyflwyno'r cymhwyster hwn. Ar y cyfan, roedd y samplau a gyflwynwyd yn drefnus ac roedd yr anodi gan aseswyr yn amrywiol.

Gan fod Aseiniad 1 a 2 i'w cwblhau dan amodau dan reolaeth gyda therfyn geiriau a lwfans 'nodiadau', disgwyliwyd bod tystiolaeth o hyn wedi'i chynnwys. Fodd bynnag, prin oedd y sylwadau, tystiolaeth neu'r cyfeiriadau gan diwtoriaid o ran yr elfennau hyn. Mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr wedi mynd dros y terfyn geiriau. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi 'dyfynnu' o'r rhyngrwyd ac heb ddefnyddio dull cyfeirio penodol.

Roedd Aseiniad 2 yn gofyn i ymgeiswyr gyflawni cyfnod o leoliad gwaith mewn lleoliad Iechyd a/neu Gofal Cymdeithasol a 60 awr o ymgysylltu â'r sector. Roedd canolfannau wedi darparu'r dystiolaeth hon yn effeithiol, ond ychydig o ymgeiswyr a aeth i leoliadau ysgolion cynradd. Roedd hyn yn eu rhoi dan anfantais wrth fynd i'r afael â gofynion yr asesiad. Rhaid pwysleisio eto eleni nad yw lleoliadau gofal plant yn addas ar gyfer y fanyleb hon.

Roedd yr amrywiaeth o siaradwyr gwadd a'r rhyngweithio o ran ymgysylltu â'r sector yn amrywio o ganolfan i ganolfan, ac roedd hyn yn cysylltu ag ansawdd gwaith yr ymgeiswyr. Gall rhannu amrywiaeth o gyfleoedd ymgysylltu â'r sector fod yn arfer da yn y dyfodol.

| Meysydd i'w gwella | Adnoddau ystafell ddosbarth | Disgrifiad byr o'r adnodd |
|---|---|---|
| Ymarfer cwestiynau arholiad | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ | Adnoddau Arweiniad i'r Arholiad (cyngor ac awgrymiadau ymarferol) |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth greiddiol | https://www.dysguiechydagofal.cymru/adnoddau/ | Adnoddau Dysgu |

© WJEC CBAC Cyf.

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU**

**Lefel 2**

**Haf 2024**

**UNED 1: Hybu iechyd a llesiant drwy gydol camau bywyd**

**Trosolwg o'r Uned**

Roedd yr ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn. Aseswyd gwybodaeth, dealltwriaeth, cymhwyso a dadansoddiad ymgeiswyr drwy bob maes o'r fanyleb yn ôl y manylion yn y cynllun marcio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, a dangoswyd dealltwriaeth dda o'r geiriau gorchymyn. Roedd sillafu a gramadeg yn elfen gadarnhaol i'r rhan fwyaf o ymgeiswyr ac roedd llawysgrifen yn ddarllenadwy yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd yn ymddangos bod yr ymgeiswyr wedi dangos dealltwriaeth dda a chytbwys. Fodd bynnag, nid oedd digon o fanylion i'w cael ar gyfer rhai ymatebion, yn enwedig ar gyfer y cwestiynau marciau uwch. Roedd rhai ymgeiswyr wedi cyfyngu ar eu marciau drwy ysgrifennu ymatebion syml, heb dreulio amser yn meddwl yn fanylach, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd i lunio eu hymatebion.

Fel mewn cyfresi blaenorol, roedd y testun hunan-gysyniad a gwydnwch yn anodd i ymgeiswyr ei ddeall a'i esbonio. Mae'n fanteisiol ymarfer cymhwyso'r meysydd testun hyn at amrywiaeth o unigolion a chamau bywyd gwahanol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Cw.1** Roedd nodi cam bywyd a'r ystod oed wedi'i wneud yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd rhai ymgeiswyr yn aneglur o ran y derminoleg gywir ar gyfer oedolaeth ddiweddarach, gan awgrymu termau anghywir megis 'pensiynwyr' ac *OAPs.* Gofynnwyd i ymgeiswyr fod yn gywir wrth nodi'r amrediad oed. Ni roddwyd unrhyw oddefiant.

**Cw.2 (a)** Derbyniwyd amrediad eang o ymatebion ar gyfer datblygu sgiliau meddwl plentyn 2 oed. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys cwblhau posau, peintio, a lliwio. Rhaid i'r gweithgareddau fod yn briodol a phenodol o ran oedran, felly ni roddwyd marciau am weithgareddau megis ysgrifennu.

**(bi), (bii)** Roedd ymatebion a enillodd farciau llawn yn esbonio'n fanwl sut gallai dysgu iaith newydd helpu'r ffordd mae ymennydd oedolyn hŷn yn gweithio, gan ddefnyddio cof, cadw'r meddwl yn brysur, gan gyfrannu at arafu dechreuad dementia, efallai. Eto, disgwyliwyd ymateb manwl mewn perthynas â gwella datblygiad cymdeithasol i ennill y marciau uchaf. Cyfyngwyd ar farciau llawer o ymgeiswyr drwy gynnig ymateb syml o 'wneud ffrindiau newydd'. Roedd ymatebion datblygedig yn esbonio sut gallai mynychu cwrs iaith Cymraeg arwain at gyfeillgarwch newydd a chyfleoedd pellach megis teithiau.

**Cw.3 (a)** Awgrymwyd gweithgareddau corfforol mewn canolfan weithgareddau awyr agored yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr. Roedd gweithgareddau penodol yn ennill marciau, gyda gweithgareddau generig megis 'ymarfer corff' ddim yn ennill unrhyw farciau.

© WJEC CBAC Cyf.

**(b)** Collodd rhai ymgeiswyr farciau drwy ddiffinio gwydnwch heb unrhyw gymhwyso at y senario, ac roedd rhai ymatebion yn esbonio anawsterau posibl plentyn yn aros i ffwrdd o gartref heb unrhyw gyswllt â gwydnwch.

**(c)** Rhoddwyd marciau yn y bandiau uchaf i ymgeiswyr a oedd wedi trafod pwysigrwydd polisi cynhwysiant yn fanwl. Roedd ymatebion da wedi defnyddio terminoleg y pwnc i drafod hybu empathi, cyfle cyfartal, atal gwahaniaethu a chodi dyheadau.
Roedd ymatebion sylfaenol yn cyfeirio at unigolion ddim yn cael eu gadael allan.

**Cw.4** Roedd y cwestiynau'n ymchwilio i anghenion deietegol unigolion. Enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr farciau uchel yn y cwestiwn hwn. Yn aml roedd diffyg manylion i ymatebion yn rhan (c), gan ganolbwyntio naill ai ar faeth neu hydradu, a oedd yn cyfyngu marciau i'r band is. Gallai ymatebion band uchaf esbonio pwysigrwydd maeth a hydradu i unigolion yn y senario ysbyty.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn yn archwilio effaith anabledd corfforol ar aelodau unigol teulu. Roedd yn braf gweld bod rhai o'r ymatebion band marciau uchaf wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol.

**Cw.6** Disgrifiwyd rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dda gan rai ymgeiswyr, gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl.

**Cw.7** Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr roi enghreifftiau o wasanaethau sgrinio. Roedd ymatebion poblogaidd yn cynnwys sgrinio profion Bron Brawf a sgrinio cerfigol. Ar hyn o bryd nid oed gwasanaeth sgrinio'n cael ei gynnig ar gyfer canser y prostad na chanser yr ysgyfaint. Roedd ymgeiswyr yn llai eglur o ran pwysigrwydd mynychu apwyntiadau sgrinio, megis canfod yn gynnar cyn i symptomau corfforol ymddangos. Gallai ymgeiswyr amlinellu'r heriau amlycaf sy'n gysylltiedig â chyflawni gwasanaethau sgrinio, megis cywilydd, ofn, a gorbryder. I ennill marciau yn y bandiau uchaf, disgwyliwyd i ymgeiswyr gynnwys amrywiaeth eang o rwystrau megis rhai daearyddol, ariannol a phroblemau o ran staffio.

**Cw.8** Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn am asesiad o'r mathau gwahanol o ddeunyddiau a dulliau hyrwyddo ar gyfer elusennau iechyd meddwl. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi ymateb yn dda i'r cwestiwn ond roedd diffyg manylion yn eu hatebion. Roedd hyn yn cyfyngu'r marciau a roddwyd. Roedd ymateb cyffredin yn cyfyngu nifer y deunyddiau a'r dulliau a ddisgrifiwyd, heb unrhyw asesiad. Dim ond y band marciau is oedd yr ymgeiswyr hyn yn gallu ei gyrraedd.

© WJEC CBAC Cyf.

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: EGWYDDORION A CHYD-DESTUNAU

### Lefel 2

### Haf 2024

### UNED 2: IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL MEWN PERTHYNAS Â CHEFNOGI DARPARIAETH SY'N CANOLBWYNTIO AR GANLYNIADAU AR GYFER GOFAL PERSON-GANOLOG

**Trosolwg o'r Uned**

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24, mae'r ymgeiswyr wedi cwblhau'r ddwy gydran o'r aseiniad hwn.

Mae canolfannau wedi gweithio'n eithriadol o galed i fodloni gofynion cyflwyno ar gyfer y cymhwyster hwn gyda'r rhan fwyaf o ganolfannau yn cyflwyno'u samplau o Aseiniad 1 a 2 o fewn yr amserlen. Ar y cyfan, roedd y samplau a gyflwynwyd wedi'u trefnu'n dda gyda'r rhifau ymgeiswyr cywir wedi'u cymhwyso yn y rhan fwyaf o achosion, ac roedd y rhan fwyaf wedi'u dilysu'n briodol, ond
cafwyd rhywfaint o wallau neu hepgoriadau. Roedd yr anodi gan aseswyr yn amrywio o ddim anodi i gyfiawnhad manwl o pham y rhoddwyd marciau.

Gan fod Aseiniad 1 a 2 i'w cwblhau dan amodau dan reolaeth gyda therfyn geiriau a lwfans 'nodiadau', disgwyliwyd bod tystiolaeth o hyn wedi'i chynnwys. Fodd bynnag, prin oedd y sylwadau, tystiolaeth neu'r cyfeiriad gan diwtoriaid ar yr elfennau hyn. Mewn rhai achosion roedd ymgeiswyr wedi mynd dros y terfyn geiriau. Mewn rhai achosion, roedd ymgeiswyr wedi 'dyfynnu' o'r rhyngrwyd ac heb ddefnyddio dull cyfeirio penodol.

Roedd aseiniad 2 yn gofyn i ymgeiswyr gymryd rhan mewn lleoliad gwaith perthnasol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a 60 awr o ymgysylltu â'r sector, i gynhyrchu tystiolaeth o hyn a'i chymhwyso at y tasgau yn Aseiniad 2. Roedd canolfannau wedi darparu'r dystiolaeth hon yn effeithiol, ond ychydig o ymgeiswyr a aeth i leoliadau ysgolion cynradd. Roedd hyn yn eu rhoi dan anfantais wrth fynd i'r afael â gofynion yr asesiad. Rhaid pwysleisio eto eleni **nad** yw lleoliadau gofal plant yn addas nac yn cael eu caniatáu dan ganllawiau'r fanyleb hon.

Roedd yr amrywiaeth o siaradwyr gwadd a'r rhyngweithio o ran ymgysylltu â'r sector yn amrywio o ganolfan i ganolfan, ac weithiau roedd hyn yn cysylltu ag ansawdd gwaith yr ymgeiswyr. Gall rhannu amrywiaeth o gyfleoedd ymgysylltu â'r sector fod yn arfer da yn y dyfodol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Aseiniad 1**

Mae'r aseiniad hwn yn cynnwys dewis o ddwy astudiaeth achos mewn tasg dan reolaeth 6 awr o hyd. Roedd y rhan fwyaf o ganolfannau wedi dangos tystiolaeth o ddewis yn cael ei gynnig. Cyflwynwyd nodiadau mewn rhai achosion ond dim llawer. Prin iawn oedd y samplau o log amser ar gyfer y dasg dan reolaeth. Weithiau roedd tiwtoriaid yn marcio'n hael pan nad oedd cyfiawnhad wedi'i roi dros ddyfarnu marciau. Rhoddwyd marciau mewn bandiau uwch, ar brydiau, pan mai dim ond rhan o feini prawf oedd wedi'i bodloni. Mewn rhai samplau, roedd yn ymddangos bod marciau'n cael eu rhoi heb gyfeirio at yr atebion a argymhellir yn y cynllun marcio.

© WJEC CBAC Cyf.

**Tasg A:** Roedd pob ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar y dasg hon, ond roedd llawer heb gymhwyso anghenion sylfaenol Max Neef at eu hastudiaeth achos o ddewis. Yn hytrach, trafodwyd anghenion *PIES* (corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol). Cafwyd amrywiaeth o atebion a oedd yn cadw at y ferf gorchymyn 'amlinellwch'. Byddai rhywfaint o dystiolaeth o safoni'r marcio o fewn canolfannau yn ddefnyddiol.

**Tasg B: (i)** Collwyd ychydig iawn o farciau yma gan fod y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cymhwyso'r canlyniadau llesiant o'r astudiaeth achos.

**Tasg B: (ii)** Ychydig iawn o ymgeiswyr a enillodd farciau llawn ar gyfer yr adran hon, naill ai am beidio â chymhwyso rôl y tîm amlddisgyblaethol at y canlyniadau llesiant personol neu am beidio â disgrifio sut roedd **pob** aelod yn cefnogi Kim/Steffan.

**Tasg C:** Prin oedd yr ymgeiswyr a enillodd farciau yn y band uchaf ar gyfer yr adran hon. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth o ddefnyddio'r acronymau Saesneg GATEAU ond nid ym mhob canolfan. Collwyd marciau lle nad oedd ymgeiswyr wedi cymhwyso'r heriau i gael mynediad at wasanaethau neu lle roedden nhw wedi trafod heriau personol. Mewn rhai achosion, trafodwyd heriau yn amser y gorffennol, nid sut o ran sut i gael mynediad at wasanaethau yn y dyfodol.

**Tasg Ch: (i)** Cyfradd llwyddiant isel o ran marciau Band 3 ar gyfer yr adran hon. Gallai ymgeiswyr gynnig peth disgrifiad o 3 chydran y meini prawf hyn ond ychydig iawn a 'esboniodd' ac a gysylltodd nhw â'r canlyniadau llesiant.

**Tasg Ch: (ii)** Ymatebion da i'r adran hon a syniad cyffredinol glir o beth yw'r codau ymddygiad, ond ychydig iawn oedd wedi disgrifio codau ymddygiad penodol a oedd yn ymwneud ag unrhyw aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol neu weithwyr iechyd gofal gyda disgrifiad cyffredinol wedi'i roi yn y rhan fwyaf o achosion.

**Tasg D:** Ymatebion amrywiol i'r adran hon, gyda rhywfaint o ymatebion da iawn lle roedd gan yr ymgeisydd syniad clir o'r ddeddfwriaeth. Mewn llawer o achosion, roedd yr ymgeisydd wedi disgrifio pob egwyddor fel ateb ar wahân i sut maent yn cefnogi Kim/Steffan. Er enghraifft, rhestru pum egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a chynnig disgrifiad o bob un. Byddai canolfannau'n elwa o ddull safonedig i ymatebion derbyniol i'r adran hon gan mai prin oedd y dystiolaeth o ddadansoddi neu sut mae'r egwyddorion yn dylanwadu ar yr astudiaeth achos. Mewn rhai ymatebion band 3 neu 4, cafwyd trafodaeth dda am yr egwyddorion ond nid sut maen nhw'n cefnogi canlyniadau llesiant.

© WJEC CBAC Cyf.

**Aseiniad 2**

**Tasg A:** Rhoddodd pob ymgeisydd gynnig ar yr adran hon, gyda llwyddiant amrywiol. Gellid annog canolfannau i gynnig amrywiaeth ehangach o ymgysylltu â'r sector i wella profiad yr ymgeiswyr o rolau priodol o fewn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Er bod rolau mewn ysgolion cynradd yn werthfawr i'r ymgeiswyr nid ydyn nhw'n osodiadau lleoliad gwaith priodol.
Roedd rhai ymgeiswyr wedi disgrifio dwy rôl ymgysylltu â'r sector neu roedd yn aneglur lle roedd eu lleoliad gwaith. Roedd llawer o ymgeiswyr wedi disgrifio rhinweddau fel rhestr yn hytrach na'u cymhwyso nhw'n uniongyrchol at bob gweithiwr proffesiynol. Weithiau rhoddwyd marciau fel marc cyfan allan o 16 heb ddangos pob gweithiwr proffesiynol allan o 8 marc yr un.

**Tasg B:** Roedd rhai canolfannau wedi cynnig cyfanswm marciau ar gyfer yr adran hon, yn hytrach na 'marciau allan o', e.e. allan o 2 farc yn b(i), 3 marc yn b(ii), 9 marc yn b(iii). Cynghorir cynnig marciau unigol neu anodiadau i unigolion i ddangos sut rhoddwyd marciau drwy gydol yr adran hon. Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi cynnig diffiniad sylfaenol i dda o ofal person-ganolog ond ychydig iawn a roddodd enghreifftiau i ehangu ar eu diffiniad. Roedd y marciau ar gyfer b(ii) a b(iii) yn dibynnu ar brofiad gwaith. Rhoddwyd ymgeiswyr ar leoliadau gwaith mewn ysgolion yn y bandiau marciau is gan ei bod yn amlwg yn fwy anodd cymhwyso gofal person-ganolog at blant ysgol gynradd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y meini prawf hyn ac wedi defnyddio'u gwybodaeth ddamcaniaethol i ddisgrifio manteision gofal person-ganolog.

**Tasg C:** Roedd pob ymgeisydd yn y sampl wedi rhoi cynnig ar yr adran hon. Ychydig o ymgeiswyr a enillodd farciau band 4 gydag esboniad rhagorol. Byddai cadw at y berfau gorchymyn a defnyddio dyddiadur lleoliad gwaith yn caniatáu ar gyfer esboniad manwl pellach. Eto, roedd yr ymgeiswyr ar leoliadau gwaith gofal plant wedi'i chael hi'n anodd cymhwyso cydgynhyrchu i'w lleoliad, ond eto dyma oedd y dewis mwyaf poblogaidd i'w esbonio. Mewn rhai achosion, rhoddwyd marciau band 4 'rhagorol' am ddisgrifiadau anghywir o'r meysydd hyn.

**Tasg Ch:** Rhoddodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr gynnig ar yr adran hon, gyda rhywfaint o fyfyrio ar eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain. Roedd rhai ymgeiswyr wedi myfyrio ar sut roedd eu gwybodaeth eu hunain wedi elwa, roedd y rhan fwyaf wedi myfyrio ar eu cryfderau a'u gwendidau gydag ychydig iawn o gyfrifon gwirioneddol o'u profiadau. Ymddengys bod ansawdd y myfyrio yn dibynnu ar ansawdd y dyddiadur lleoliad gwaith, os y cafodd ei gyflwyno. Roedd rhai canolfannau wedi gwneud hyn yn dda iawn gan gyflwyno cofnod manwl o ymgysylltu â'r sector er mwyn gwella'r profiad dysgu.

© WJEC CBAC Cyf.

**Eich cefnogi chi**

**Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol**

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029 2240 4264
E-bost: igceach@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (dysguiechydagofal.cymru)

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

**Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol**

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: Hyfforddiant a Digwyddiadau i Ddod | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

**Cymwysterau CBAC**

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.